



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyfryn Rheolau Cyffredinol Cynllun Cymorth y Taliad Sylfaenol (BPS)

Cynnwys

Pwnc	Rhif y Dudalen
Cyflwyniad	1
Cynllun Cymorth y BPS	2
Pwy sy'n gymwys?	2
Sut ydw i'n gwneud cais am daliad Cynllun Cymorth y BPS?	3
Sut y caiff y taliad cynllun cymorth ei dalu?	4
Sut caf i wybod bod y taliad wedi'i wneud?	4
Cysylltiadau	6
Atodiad A - Amodau a Thelerau	8
Atodiad B - Llinell amser Cynllun Cymorth y BPS	10

© Hawlfraint y Goron 2018 ISBN digidol: 978-1-83933-343-9

Cyflwyniad

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig wedi cyhoeddi cynllun cymorth ar ffurf benthyciad i helpu ffermwyr na fydd modd efallai talu Taliad Sylfaenol (BPS) 2020 iddynt ar 1 Rhagfyr 2020 pan fydd y cyfnod talu'n agor.

Bydd cwsmeriaid yn cael gwneud cais am Gynllun Cymorth BPS os na fyddwn wedi gorffen prosesu'u hawliad erbyn diwrnod cynta cyfnod talu'r BPS (1 Rhagfyr).

Os ydych wedi gwneud cais am BPS 2020 drwy Ffurflen y Cais Sengl (SAF) 20209, dylech ystyried gwneud cais am daliad y cynllun cymorth.

Cynllun yr ydych yn **dewis ymuno ag ef** yw hwn ac os ydych am gael taliad y cynllun cymorth am nad yw'ch hawliad wedi cael ei brosesu, bydd angen ichi wneud cais erbyn 27 Tachwedd 2020. Ni fydd cyfle i wneud cais am daliad cynllun cymorth BPS ar ôl 27 Tachwedd.

Cynllun Cymorth y BPS

Y wlad sy'n ariannu'r benthyciad hwn. Fe welwch amodau a thelerau'r benthyciad yn Atodiad A.

Pryd caiff taliad y cynllun cymorth ei wneud?

Rydyn ni'n disgwyl rhoi taliadau'r cynllun cymorth yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn ar 7 Rhagfyr 2020.

Fe welwch linell amser yn Atodiad B.

Beth yw gwerth taliad y cynllun cymorth?

Gallwch gael taliad y cynllun cymorth o hyd at 90% o werth bras eich taliad BPS 2020. Bydd eich taliad BPS yn seiliedig ar yr arwynebedd y byddwch wedi'i ddatgan ar gyfer BPS ar eich SAF 2020 ac ar nifer yr hawliau talu fydd gennych ar 15 Mai 2020.

Pwy sy'n gymwys?

Cewch wneud cais am daliad y cynllun cymorth os ydych yn bodloni'r amodau canlynol:

- Byddwch wedi cyflwyno cais am BPS 2020 trwy'ch Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2020
- Ni fyddwch wedi cael mwy na'r terfyn de minimis o €20,000 o Gymorth Gwladwriaethol amaethyddol yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf gyda'i gilydd.
- Yng Nghymru, bydd y cynlluniau canlynol yn cyfrif at y trothwy de-minimis amaethyddol:
 - Ilog benthyciad BPS 2018
 - Ilog Cynllun Cymorth BPS 2019
 - Ilog Cynllun Cymorth Glastir Sylfaenol ac Uwch 2019
 - Cynllun Meincnodi Cig Coch.

- Mae'n bosib y byddwch wedi derbyn taliadau o'r fath trwy Asiantaethau Talu eraill.

Ni fydd y taliadau a wnaed o dan fesurau'r Fframwaith Dros Dro ar gyfer Cymorth Gwladol i gefnogi'r economi yn ystod cyfnod y COVID-19 fel y'u cyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 19 Mawrth 2020 yn cyfrif at y trothwy de-minimis amaethyddol.

Ni all RPW dalu taliadau'r cynllun cymorth ichi os:

- os oes gennych hawliad heb ei setlo o dan BPS 2019, gan na fyddwn yn gallu dweud a oes hawliau dilys ar gael ichi ar gyfer blwyddyn 2020 y cynllun.
- Os oes gennych Grant Profiant heb ei setlo, gan na chawn dalu unrhyw arian ichi nes bod yr ystâd wedi'i setlo.

Mae RPW yn cadw'r hawl i beidio â thalu taliadau y cynllun cymorth ambell waith, er enghraifft os gwelir camgymeriadau difrifol mewn archwiliad ar y fferm neu archwiliad gweinyddol neu mewn achosion eraill y mae RPW yn gwybod amdanynt.

Cwsmeriaid yng ngwledydd eraill Prydain

Os ydych yn gwsmer sy'n ffermio bob ochr y ffin ac os mai Taliadau Gwledig Cymru (RPW) sy'n talu'ch BPS 2020, cewch wneud cais am daliad y cynllun cymorth BPS trwy ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein.

Bydd eich taliad cynllun cymorth o hyd at 90% yn seiliedig ar eich tir yng Nghymru yn unig gan na fydd gan RPW fanylion unrhyw dir y byddwch wedi'i ddatgan gydag Asiantaeth Dalu arall.

Os ydych yn gwsmer bob ochr y ffin ac mai Asiantaeth Dalu arall sy'n talu'ch BPS 2020 ichi, ni fydd RPW yn gallu rhoi taliad y cynllun cymorth ichi a dylech gysylltu â'r Asiantaeth Dalu arall am fanylion taliadau BPS 2020.

Sut ydw i'n gwneud cais am daliad cynllun cymorth y BPS?

I wneud cais am daliad cynllun cymorth y BPS, rhaid mynd ar Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein.

Fe welwch y cais am Gynllun Cymorth y BPS ar y "dudalen Hafan" neu'r adran "Ceisiadau a Hawliadau".

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gofrestru ar RPW Ar-lein neu am gwblhau eich cais am Gynllun Cymorth y BPS, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Byddan nhw'n gallu'ch cyngori a rhoi gwybod ichi ble gallwch fynd am help digidol.

Cewch fwy o fanylion am Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.llyw/rpwarlein).

Sut y caiff y taliad cynllun cymorth ei dalu?

Bydd pob taliad ar gyfer cynllun cymorth BPS yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch cyfrif banc. Gofalwch fod y manylion banc sydd gan Lywodraeth Cymru ar eich cyfer yn gywir.

Sut ca i wybod bod y taliad cynllun cymorth wedi'i wneud?

Caiff llythyr sy'n cadarnhau taliad neu sy'n esbonio pam nad ydym wedi gallu rhoi eich taliad cynllun cymorth ichi eu hychwanegu at eich cyfrif RPW Ar-lein.

Bydd y llythyr sy'n cadarnhau bod y taliad cynllun cymorth wedi'i dalu ichi yn cadarnhau'n unig faint o daliad sydd wedi'i wneud ichi. Fe welwch fanylion llawn eich taliad BPS 2020 yn llythyr talu'r BPS a anfonir atoch pan fyddwn yn ei dalu ichi. Hefyd, caiff datganiad o'r llog ei roi ichi at ddiben Cymorth Gwladwriaethol yn fuan ar ôl talu taliad BPS 2020 ichi ac ar ôl ichi ad-dalu'ch taliad cynllun cymorth.

A fydd yn rhaid ifi dalu ffioedd a llog?

Cyn belled â'ch bod yn cadw at amodau a thelerau'r cynllun talu hwn, ni fydd gofyn talu llog. Caiff y llog ei dalu gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei ystyried fel taliad cymorth gwladwriaethol i chi.

Sut bydda i'n talu'r taliad cynllun cymorth yn ôl?

Caiff yr arian ei dynnu'n awtomatig o'ch taliad BPS 2020 ar ôl inni ei brosesu ac os bydd peth ar ôl, byddwn yn ei dalu ichi.

Yn unol â'r telerau a'r amodau, gallai Llywodraeth Cymru gymryd y taliad cynllun cymorth sy'n ddyledus iddi trwy unrhyw daliadau'r PAC sydd i ddod ichi. Mae Glastir Sylfaenol, Glastir Uwch, Cynllun Organig Glastir, Cynllun Rheoli Coetir Glastir i gyd yn daliadau'r PAC. Os na fydd eich taliad BPS terfynol yn ddigon ichi allu ad-dalu'ch taliad cynllun cymorth trwyddo, bydd yn rhaid ichi ad-dalu taliad y cynllun cymorth sy'n weddill. Hefyd, bydd yn rhaid ichi dalu llog ar y gwahaniaeth os na fyddwch yn ei dalu o fewn 7 niwrnod ar ôl ichi gael llythyr talu BPS 2020 neu gael gwybod bod eich cais am BPS 2020 wedi'i wrthod. Os oes taliadau PAC i'w talu ichi, byddwn yn cymryd y taliad cynllun cymorth sy'n ddyledus inni o'r taliadau hynny..

Os bydd gofyn ichi ad-dalu'r taliad cynllun cymorth, anfonwch eich siec, yn daladwy i **AMAETHYDDIAETH LLYWODRAETH CYMRU** (nid ydym yn derbyn sieciau sy'n dyladwy i Taliadau Gwledig Cymru) i Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin (gweler y cyfeiriadau isod). Neu cewch dalu trwy BACS i gyfrif 10003096, cod didoli 60-70-80 (punnoedd) neu gyfrif 550/00/85014648, cod didoli 60-70-80 (ewros). Nodwch eich Cyfeirnod Cwsmer wrth dalu.

Os na fyddwch wedi ad-dalu'ch taliad cynllun cymorth BPS yn unol â'r amodau a'r telerau yn Atodiad A, bydd yn rhaid ichi dalu llog ar y rhan o'r benthyciad sydd heb ei ad-dalu. Caiff y llog ei gyfrif o ddyddiad talu'r benthyciad ichi.

Enghraifft

Gwerth taliad cynllun cymorth y BPS - £10,000 (talwyd 10 Rhagfyr 2020)

Cyfanswm taliad y BPS - £7,000 (dyddiad cael gwybod - 1 Mawrth 2021)

Y gwahaniaeth rhwng taliad y BPS a thaliad y cynllun cymorth - £3,000

Os byddwch wedi ad-dalu'r gwahaniaeth cyn 8 Mawrth 2021, ni fydd angen talu llog ar daliad y cynllun cymorth.

Os na fyddwch wedi ad-dalu'r gwahaniaeth cyn 8 Mawrth 2021:

- Bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r llog ar £7,000 (cymorth gwladwriaethol)
- Bydd angen ichi dalu'r llog ar y gwahaniaeth o £3,000. Caiff y llog ei gyfrif o ddyddiad talu taliad y cynllun cymorth (10 Rhagfyr 2020) tan ddyddiad ad-dalu'r £3,000 a'r llog.

Beth yw'r gyfradd llog?

2.95% yw'r gyfradd llog.

Bydd y gyfradd llog yn seiliedig ar gyfradd sylfaenol mis Medi, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfrif cyfraddau llog ar gyfer cymorth gwladwriaethol.

Cysylltiadau

Ymholiadau – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer pob ymholiad, cysylltwch â [Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru](#)

Gellir cyflwyno ymholiadau drwy RPW Ar-lein ar unrhyw adeg.

Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb y gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru i wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: www.cymru.llyw/cynlluniauamaeth. Bydd cyfle ichi gofrestru arni am daflen e-newyddion yr Adran Materion Gwledig fydd yn cael ei hanfon atoch trwy e-bost.

Gwlad

Gwlad yw cylchgrawn Llywodraeth Cymru i ffermwyr, busnesau coedwigaeth a phawb sydd â diddordeb mewn ffermio ac yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n llawn newyddion, cyngor a gwybodaeth hawdd eu ffeindio a'u deall. I sicrhau eich bod yn parhau i glywed am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf gallwch gofrestru i dderbyn Gwlad trwy fynd i: www.llyw.cymru/news-alerts: www.llyw.cymru/gwlad

Atodiad A

Telerau ac Amodau Cynllun Cymorth y BPS

- i) Benthyciad yw'r Swm a bydd llog o 2.95% yn cael ei godi arno. Rhaid ad-dalu'r Swm erbyn y cynharaf o'r dyddiadau a ganlyn: (a) y seithfed diwrnod ar ôl y dyddiad y byddwch yn cael gwybod ein bod wedi talu'ch taliad BPS 2020 terfynol i chi neu, yn ôl y digwydd, y byddwch yn cael gwybod nad oes unrhyw daliad BPS 2020 yn ddyledus ichi; neu (b) 31 Rhagfyr 2021. Bydd Gweinidogion Cymru (y cyfeirir atynt wedi hyn fel "Llywodraeth Cymru") yn ysgwyddo cost y llog ar eich rhan a bydd y swm hwnnw'n Gymorth Gwladwriaethol, fel y'i disgrifir ym mharagraff (vii) isod.
- ii) Bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r llog ar y Swm y cyfeirir ato ym mharagraff (i) os caiff y benthyciad ei ad-dalu'n llawn ar y dyddiad neu cyn y dyddiad y bydd yn ddyledus, fel y nodir uchod. Os byddwch yn cadw'r Swm, neu unrhyw ran ohono, heblaw mewn ffordd sy'n unol â'r telerau hyn, byddwch yn atebol am dalu'r llog llawn ar y Swm.
- iii) Os na chaiff y Swm, neu unrhyw ran ohono, ei ad-dalu ar y dyddiad y bydd yn ddyledus, fel y nodir uchod, byddwch yn atebol hefyd am dalu llog ar y Swm neu ar unrhyw weddill a fydd yn ddyledus, a hynny yn ôl cyfradd o 2.95% y flwyddyn nes yr addelir yr hyn a fydd yn ddyledus.
- iv) Caniateir inni, ar unrhyw adeg, a heb roi hysbysiad pellach ichi, osod unrhyw atebolrwydd a fydd arnoch chi i ad-dalu'r Swm (ynghyd ag unrhyw log a all fod yn ddyledus) yn erbyn unrhyw atebolrwydd a fydd arnom ni i wneud unrhyw daliadau eraill ichi ym mha fodd bynnag y byddant yn codi. Os byddwn yn arfer yr hawl o dan y cymal hwn, ni fydd hynny'n lleihau effaith unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill y gall fod gennym yn eich erbyn, pa un ai o dan y cytundeb hwn neu fel arall. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, caniateir inni hefyd arfer yr hawl hon i osod unrhyw atebolrwydd a fydd arnoch chi yn erbyn unrhyw atebolrwydd a all fod arnom ni i wneud taliad PAC ichi.
- v) Os bydd yr holl Swm yn cael ei osod yn erbyn taliad PAC a fydd yn ddyledus mewn perthynas â'ch cais cyfredol, ni chodir unrhyw log. Os rhan yn unig o'r Swm a gaiff ei osod yn erbyn taliad, bydd y llog ar unrhyw weddill a fydd heb ei dalu yn ddyledus i'w dalu gennych o'r dyddiad ad-dalu, a hynny ar y gyfradd llog a nodir uchod.
- vi) Os byddwn yn ildio unrhyw un neu rai o'r telerau a nodir yn y canllaw hwn neu unrhyw un neu rai o'n hawliau neu'n rhwymedïau, ni fydd unrhyw effaith i hynny oni gwnawn hynny'n ysgrifenedig a'i fod yn cael ei lofnodi gennym neu ar ein rhan. Os byddwn yn methu â gorfodi unrhyw hawl y gall fod gennym yn eich erbyn, neu'n ymatal rhag gwneud hynny neu'n oedi cyn gwneud hynny, ni fydd hynny'n golygu ein bod yn ildio'r hawl honno nac unrhyw hawl neu rwymedi, ac ni fydd ychwaith yn ein hatal rhag arfer yr hawl honno ymhellach nac yn cyfyngu ar hynny. Ni fydd arfer, neu arfer yn rhannol, unrhyw hawl neu rwymedi a fydd yn codi o dan y cytundeb hwn, neu fel arall, yn ein hatal rhag arfer yr un hawl neu rwymedi neu unrhyw hawl neu rwymedi arall sut bynnag y bydd yn codi.

vii) Mae llog a delir ar eich rhan gan Lywodraeth Cymru yn Gymorth Gwladwriaethol i'ch busnes fferm (o dan Reoliad 1408/2013 yr UE). Am bob 12 mis y byddwch yn dal eich gafael ar y cyllid, daw £31.00 o Gymorth Gwladwriaethol yn ddyledus am bob £1000 o daliad cynllun cymorth y BPS. Eich cyfrifoldeb chi yw cadw cofnod o'r holl gymorth a roddir i'ch busnes fferm o dan bob cynllun a gwneud yn siŵr bod cyfanswm y cymorth gyda'i gilydd yn llai na'r lefel de minimis o €20,000 (ewro) mewn unrhyw flwyddyn ariannol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol gyda'i gilydd. Wrth dderbyn y Swm, rydych yn datgan na fyddwch yn croesi'r terfyn hwn.

viii) Mae'r rhwymedigaeth sydd arnoch i ad-dalu unrhyw arian sy'n ddyledus o dan y cais hwn am gynllun cymorth, a'r telerau sy'n gysylltiedig ag ef, ar yr un lefel neu ar lefel uwch nag unrhyw ddyledion neu rwymedigaethau eraill y gall fod gennych.

ix) Bydd yr hawl gan Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol ichi ad-dalu ar unwaith unrhyw arian a fydd yn ddyledus iddi o dan y cais hwn am gynllun cymorth, a'r telerau sy'n gysylltiedig ag ef, os byddwch wedi rhoi gwybodaeth anwir neu anghywir mewn perthynas â'ch cais am BPS 2019 neu gais am fenthyciad BPS.

x) Bydd yr hawl gan Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol ichi ad-dalu ar unwaith unrhyw arian a fydd yn ddyledus iddi o dan y cais hwn am y cynllun cymorth a'r telerau sy'n gysylltiedig ag ef os byddwch chi neu'ch busnes amaethyddol yn mynd yn ansolfent, neu'n methu fel arall â thalu ei ddyledion, neu os bydd yn cael ei wneud yn fethdalwr neu'n cael ei ddiddymu fel arall.

xi) Bydd yr hawl gan Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol ichi ad-dalu'r Swm ar unwaith os bydd yn ystyried ei bod yn ofynnol iddi adennill y swm hwnnw er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau sydd arni o dan gyfraith yr UE, ynghyd ag ad-dalu unrhyw log ar gyfradd ac ar sail y gall y Comisiwn Ewropeaidd benderfynu arnynt o bryd i'w gilydd.

Atodiad B

Llinell Amser Cynllun Cymorth y BPS

1 Medi 2020 - Y cyfnod gwneud cais ar-lein yn dechrau

Dechrau mis Tachwedd 2020 - Anfon neges at gwsmeriaid nad yw taliad BPS 2020 yn barod

25 Tachwedd 2020 - Anfon neges at gwsmeriaid os nad oes modd eu talu gyda thaliad 1af BPS 2020

27 Tachwedd 2020 - Y cyfnod gwneud cais ar-lein yn cau

w/c 7 Rhagfyr 2020 - Talu taliadau Cynllun Cymorth y BPS

Cadwch olwg ar eich cyfrif RPW ar-lein i weld a oes hysbysiad talu wedi cyrraedd.